# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 4 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **14:30 – 15:40** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/senedd-tv.htm

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Mick Antoniw (yn lle Julie James)**
**Eluned Parrott**
**Simon Thomas (yn lle David Melding)**

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

**P Gareth Williams (Clerc)**
**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**
**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Owain Roberts (Ymchwilydd)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding AC. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, enwebodd Eluned Parrott AC Simon Thomas AC i fod yn Gadeirydd dros dro.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies AC.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC hefyd. Dirprwyodd Mick Antoniw AC ar ei rhan.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 **CLA322 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**
2.2 **CLA321 – Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013**

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 **CLA320 – Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013**
3.2 **CLA323 – Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013**

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 4 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat.

5.1 Adroddiad drafft ar y Bil Addysg (Cymru)